## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r swm wythnosol y mae awdurdodau lleol i ragdybio, yn niffyg amgylchiadau arbennig, y bydd ar breswylwyr, sydd mewn llety a drefnwyd o dan Ran 3 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, ei angen at eu hanghenion personol. O 10 Ebrill 2006 ymlaen, rhagdybir y bydd ar bob preswylydd o'r fath angen £20.00 yr wythnos.

Yn ail, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau pellach i Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 ("y Prif Reoliadau").

Mae'r Prif Reoliadau'n penderfynu'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn asesu gallu person i dalu am y llety a drefnwyd ar ei gyfer o dan Ran 3 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

Mae'r diwygiadau yn darparu i bartneriaid sifil gael eu trin yn yr un modd 137 phobl briod ac i daliadau cymorth mabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 gael eu diystyru fel cyfalaf ac fel incwm.

Mae codiadau blynyddol hefyd yn y terfynau cyfalaf a'r diystyriad ar gyfer y rhai sy'n cael credyd pensiwn.